**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir CYFARFOD ARBENNIG o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, DDYDD LLUN, 25 Ionawr 2016, yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb. Dechreuir y cyfarfod am 10.00 o'r gloch y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016-2019 a Chyllideb 2016-17**

5. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

**EITEM AR YR AGENDA: 4**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**25 Ionawr 2016**

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2016-2019
A CHYLLIDEB 2016-17**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno i'r Aelodau y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2016-17 i 2018-19, sy'n cynnwys y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

## Cefndir

2 Mae'n rhaid i sefydliad effeithiol gael nifer o gynlluniau corfforaethol yn eu lle er mwyn sicrhau bod strategaeth gyffredinol yr Awdurdod a'i gynlluniau gwella yn cael eu cyflawni. Mae'r SATC yn cefnogi'r cynlluniau hyn ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd sydd wedi cael eu blaenoriaethu yn y Cynllun Gwella. Mae llunio SATC yn sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn mewn perthynas â chynllunio cyllidebau ac arian dros y tymor hir felly gellir rheoli unrhyw newidiadau arfaethedig i sicrhau bod y trosglwyddiad yn un llyfn.

3 Mae'r Cynllun Gwella blynyddol yn nodi sut y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ac mae'n nodi'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod felly mae'r ddogfen yn elfen allweddol o'r SATC.

4 Mae'r amcanion yn nodi sut gall yr Awdurdod gynnal a gwella'r modd y darperir gwasanaeth gweithredol a chydnabod yr angen i gyfyngu ar y gofynion ychwanegol ar y gyllideb oherwydd y parhad yn y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

5 Yr Amcanion Gwella drafft a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd dilynol yw cynnal y lefel gyfredol o waith atal tanau; ail-ystyried adnoddau i gyfateb i'r risg ar gyfer ymateb i argyfyngau; amrywio rôl y diffoddwyr tân er mwyn cynnig gwasanaeth ychwanegol i'r cyhoedd; ac ymgorffori unrhyw gostau anochel, a thrwy hynny osod cyllideb â dim cynnydd iddi.

6 Dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion o £3.5 miliwn drwy fynd ati, mewn gwirionedd, i leihau gofyniad net y gyllideb 0.65% ac ymgorffori unrhyw gynyddiadau megis dyfarniadau cyflog, costau ariannu cyfalaf a cynyddiadau chwyddiant cyffredinol. Er mwyn sicrhau'r arbedion hyn, fe wnaeth yr Awdurdod gyflawni nifer o opsiynau a ddewiswyd gan yr Aelodau, gan gynnwys newidiadau i'r system gylchrestru; ailstrwythuro rheolwyr; adolygu peiriannau uchel; staffio diogelwch tân cymunedol a staffio gwasanaethau cefnogol. Yn gyffredinol, mae'r gweithlu wedi lleihau 9% dros y cyfnod hwn. Er gwaethaf y gostyngiadau mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gyflawni mewn perthynas â'i amcanion.

7 Mae'r Aelodau wedi cytuno ar y strategaeth a gynhwyswyd yn y Cynllun Gwella er mwyn ceisio gosod cyllideb wedi'i rhewi ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf sy'n cychwyn yn 2016/17 ac, os oes angen, defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr hyd nes y bydd strategaethau wedi cael eu datblygu i leihau costau a chynhyrchu cyllideb fantoledig.

## Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru

8 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ariannu drwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Daw'r cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r Cyllid Allanol Cyfun (*Aggregate External Finance (AEF)*) (sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu), a refeniw trethi lleol. Y rhaniad o ran ariannu'r rhan fwyaf o awdurdodau yw 75% yn Gyllid Allanol Cyfun, a 25% yn dreth gyngor. Er mwyn cael 2% o ostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun byddai'n rhaid i'r dreth gyngor gynyddu 6% er mwyn cynnal yr un lefel o gyllid.

9 Fe wnaeth yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Mai 2015 ysgogi adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU. Ar 25 Tachwedd 2015, cyhoeddwyd dosbarthiad adnoddau ariannol y sector cyhoeddus drwy gyllideb Llywodraeth y DU. Roedd y dosbarthiad hwn yn cynnwys cyhoeddi Grant Bloc Cymru, ac roedd hwnnw yn ei dro yn caniatáu i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ei blaenoriaethau a llunio'r gyllideb ddrafft y penderfynwyd setliad 2016/2017 arni.

10 Mae'r adnoddau ariannol a ddyrannwyd i lywodraeth leol drwy'r setliad rhyw 26% o gyllideb gyffredinol y sector cyhoeddus ar gyfer Cymru. Mae'r Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer Cymru wedi cael ei dorri -1.4%, gyda'r broses ddosbarthu yn cynhyrchu toriadau'n amrywio o -0.1% i –4.1%. Ond nid yw'r gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun mor uchel â'r disgwyl oherwydd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn y setliad ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

11 Dyma'r gostyngiadau amcanol yn y Cyllid Allanol Cyfun i awdurdodau Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17:

| Awdurdod Unedol | % y Newid |
|---|---:|
| Ynys Môn | -2.0 |
| Gwynedd | -1.7 |
| Conwy | -2.2 |
| Sir Ddinbych | -1.2 |
| Sir y Fflint | -1.5 |
| Wrecsam | -1.3 |
| Gostyngiad Cyfartalog | -1.65 |

12 Bydd yr Aelodau'n nodi nad yw LlC yn gallu darparu arwydd o'r Cyllid Allanol Cyfun y tu hwnt i 2016/2017.

13 Nid oes terfyn swyddogol ar gynyddiadau i dreth gyngor, ond nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau'n mynd y tu hwnt i derfyn o 5% y maent yn ei osod arnynt eu hunain. 3.95% oedd y cynnydd cyfartalog ledled awdurdodau Gogledd Cymru yn y flwyddyn flaenorol.

14 Roedd LlC eisoes wedi dweud y byddai'r setliad yn cynnwys gostyngiad yn y cyllid ar gyfer llywodraeth leol. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r pwysau hyn, ac er mwyn lleihau'r baich ar yr awdurdodau cyfansoddol maent wedi cytuno i osod cyllideb wedi'i rhewi.

## Materion Gweithredol

15 Er mwyn gosod cyllideb wedi'i rhewi a chynnal lefel gyfredol y gwasanaethau bydd raid ymgorffori pwysau costau anochel drwy newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, ac yn y tymor byr drwy ddefnyddio cyfraniad untro o'r cronfeydd.

16 Mae'r Cynllun Gwella'n cynnwys amcan i edrych ar ailystyried adnoddau i gyfateb i risg ar gyfer ymateb i argyfyngau. Bydd newidiadau i gynllunio a rheoli criwiau tân yn darparu arbedion yn y dyfodol oherwydd defnyddir adnoddau'n fwy effeithiol.

17 Bydd nifer o fentrau'n bwysig wrth gynorthwyo i gynnal y gwasanaethau gweithredol yng ngoleuni'r angen i leihau costau. Mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a gweithio ar y cyd â'r gwasanaethau brys eraill yng Ngogledd Cymru.

18 Ar hyn o bryd, nid yw'r SATC yn ystyried unrhyw newidiadau a allai ddod o Adroddiad Williams neu Gomisiwn Silk. Ar y sail hwn, mae'r SATC yn rhagdybio ar hyn o bryd na fydd unrhyw effaith ariannol o ddylanwadau allanol o'r fath.

## Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

19 Wrth ddatblygu'r SATC hon, ystyriwyd y canlynol:

- galwadau ar y gwasanaeth gweithredol ar sail cynlluniau strategol y Gwasanaeth
- yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru
- yr effaith ar yr awdurdodau cyfansoddol petai'r cyfraniadau'n cynyddu
- lefel y pwysau chwyddiant ar gyllidebau allweddol megis cyflogau

- effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr yn 2016
- cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol.

20 Caiff effaith chwyddiant cyffredinol ei reoli bob blwyddyn gan brosiectau sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd drwy leihau defnydd. Ond, mae rhai costau anochel ychwanegol na ellir eu rheoli am i lawr megis dyfarniadau cyflog; mynegeio ar gytundebau lefel gwasanaeth; cynnydd mewn yswiriant a chostau'n gysylltiedig â chael rhaglen gyfalaf. Dyma'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y SATC lle nad yw'r union gynnydd yn hysbys ar hyn o bryd:

| Math o Wariant | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|
| Dyfarniad cyflog | 1% | 1% | 1% |
| Ynni | 1% | 1% | 1% |
| Tanwydd | 1% | 1% | 1% |
| Yswiriant - Cerbydau | 3% | 3% | 0% |

21 O 1 Ebrill 2016 ymlaen, mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno newidiadau i'r pensiwn gwladol. O'r blaen, fel cyflogwr a oedd yn cynnig cynllun pensiwn yn gysylltiedig â chyflog, roedd gan yr Awdurdod hawl i ad-daliad o 3.4% o Yswiriant Gwladol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, nid yw'r ad-daliad hwn ar gael mwyach. Amcangyfrifir mai £329k fydd y cost ychwanegol i'r Awdurdod yn 2016/17.

22 Mae'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â chael rhaglen gyfalaf yn cael eu cyfrifo ar sail y math o wariant ar asedau, y cyfnod ad-dalu, ac amcangyfrif o'r llog sy'n daladwy ar y benthyciadau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn ariannu'r rhaglen.

## Sefyllfa'r Gyllideb Sylfaenol

23 Mae'r amcangyfrif o'r costau ychwanegol, fel yr amlinellir uchod, wedi cael eu hychwanegu at gyllideb sylfaenol y blynyddoedd blaenorol. Mae newidiadau gweithredol, megis effaith y polisi o ran mynd at larymau tân awtomatig, sef polisi y cytunodd yr Aelodau arno y llynedd; darparu hyfforddiant yn fewnol; a newidiadau hysbys eraill hefyd wedi cael eu cymhwyso i'r gyllideb sylfaenol. Dyma'r sefyllfa ar ôl y newidiadau hyn:-

| Y Gyllideb Sylfaenol wedi'i Haddasu £ miliwn | 15/16 Gwir | 16/17 | 17/18 | 18/19 | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen Gwariant Net | 31.886 | 32.776 | 33.376 | 33.787 | |
| Cyllideb wedi'i Rhewi | 31.886 | 31.886 | 31.886 | 31.886 | |
| Diffyg yn y Gyllideb | 0 | 0.890 | 1.490 | 1.901 | 4.281 |

24 Petai'r Awdurdod yn gosod cyllideb wedi'i rhewi ar gyfer y tair blynedd nesaf byddai'n rhaid iddo ganfod arbedion fel y nodir yn y tabl uchod. Erbyn 2018/19, byddai angen i'r arbedion fod yn £2 miliwn bron er mwyn i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig.

25 Yn y cam hon o'r broses mae'n rhy hwyr i gynllunio newidiadau gweithredol ar gyfer 2016/17 er mwyn sicrhau'r arbediad llawn sef £0.890 miliwn. Cytunodd yr Aelodau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb yn y tymor byr ond rhaid iddynt wneud penderfyniadau yn y dyfodol i gael arbedion gan leihau cymaint â phosib yr effaith ar wasanaethau.

**Cronfeydd wrth gefn**

26 Mae rheoli a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn briodol yn rhan o reolaeth a chynllunio ariannol da. Dim ond ers 2009 y mae'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wedi gallu dal cronfeydd wrth gefn, a hynny yn dilyn dyfodiad 'Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009'. Daeth y newid yn y ddeddfwriaeth er mwyn cydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai angen cyfraniad ychwanegol ar yr awdurdodau mewn unrhyw flwyddyn. O 2009 ymlaen, bu defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hollbwysig o reoli materion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub, ac mae hyn wedi sicrhau na fyddai angen diwygio cyfraniadau yn unrhyw flwyddyn.

27 Isod, dangosir y cronfeydd refeniw a fydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 31 Mawrth 2016 ac y rhagwelir bod modd eu defnyddio.

| Cronfa wrth gefn | Gwerth £ miliwn | Pwrpas |
|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 1.817 | Lleddfu effaith digwyddiadau annisgwyl, argyfyngau a llifoedd arian anwastad. Ymorol am gostau pontio cynlluniau na ellid eu hariannu o'r gyllideb refeniw. Cael ei defnyddio i danategu'r gyllideb refeniw dros dro. |
| Cronfa Gyfalaf | 0.740 | Cael ei defnyddio fel cyfraniad tuag at gost gwariant cyfalaf er mwyn lleihau costau ariannu cyfalaf. |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | 0.625 | Arian wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau penodol. Mae'r prosiectau'n cynnwys cyfarpar archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, costau trosglwyddo radio, a chynnydd mewn cyfraddau llog. |
| Darpariaeth ar gyfer Hawliadau Pensiwn Ôl-weithredol y System Dyletswydd Ran Amser (RDS) | 0.667 | Neilltuwyd y ddarpariaeth hon i ymorol am gostau pensiwn posibl y cyflogwr petai staff RDS yn ôl-ddyddio eu pensiwn. I ymorol am y costau ychwanegol, bydd y ffioedd pensiwn o 2019 ymlaen yn newid yn dilyn adolygiad actiwaraidd. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon mwyach. |

28 Y cynnig yw defnyddio'r cronfeydd a glustnodwyd a'r gronfa gyfalaf ar gyfer y diben y cawsant eu neilltuo oherwydd mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y broses blaengynllunio, ac os na chant eu defnyddio ar gyfer y diben penodol hwnnw codir costau ychwanegol ar yr Awdurdod.

29 Amcangyfrifir y bydd y cronfeydd sydd ar gael ar gyfer defnydd cyffredinol yn £2.48 miliwn wedi hynny.

30 Oherwydd yr heriau a wynebir wrth leihau'r gyllideb sylfaenol, mae'n briodol defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd hyn i gynorthwyo i gyflawni prosiectau newid yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid oes modd amcangyfrif beth fydd y costau hynny ond mae'n ddoeth sicrhau bod arian ar gael i hwyluso'r newidiadau hynny.

31 £0.890 miliwn yw’r diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2016/17. Fel y nodir isod, ceir cyfle arall i wneud arbedion er mwyn lleihau’r diffyg i £0.760 miliwn. O ystyried y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael byddai’n bosibl tanategu cyllideb 2016/17 o’r ffynhonnell honno.

## Cyllideb Refeniw 2016/17

32 Strategaeth y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw canfod arbedion yn ystod y flwyddyn a defnyddio’r cronfeydd wrth gefn i danategu’r gyllideb i roi amser i’r Awdurdod Tân ac Achub ystyried opsiynau mwy heriol ar gyfer y flwyddyn 2017/18 a’r tu hwnt.

33 Gwnaethpwyd gostyngiadau i’r gyllideb sylfaenol fel y nodir ym mharagraff 23.

34 Mae cyfle arall i leihau’r gofyn gyllideb ar gyfer ffioedd ariannu cyfalaf. Dyma amlinelliad ohono:

- Bydd Gorsaf Dân newydd Wrecsam yn cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chodir tâl am y cynllun ar y refeniw dros oes yr ased. Y polisi cyfredol yw codi 4% o’r balans sy’n weddill o’r gwariant cyfalaf ar y refeniw bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 25 mlynedd o gyfnod i ad-dalu. Ond mae’r adeilad newydd yn anarferol, yn yr ystyr bod yr Awdurdod wedi talu ei gyfran o’r costau cyfalaf, ond bydd cytundeb les gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) am 50 mlynedd (ni chodir rhent) gan mai hi fydd yn dal yn berchen ar y tir. O ystyried y cytundeb les, byddai’n rhesymol darparu ar gyfer ymestyn y cyfnod ad-dalu i’r un hyd â’r les. Byddai hyn yn arbed £130k y flwyddyn i’r Awdurdod mewn ffioedd cyfalaf.

35 Byddai cyflwyno’r cynnig uchod yn lleihau’r cyfraniad o’r cronfeydd wrth gefn i danategu’r gyllideb i £0.760 miliwn ar gyfer 2016/17.

## Goblygiadau Ariannol

36 Ymdrinnir â’r goblygiadau ariannol yng nghorff yr adroddiad.

## Asesu Risg Cydraddoldeb

37 Mae'r SATC yn cynnwys cynigion i leihau costau 2016/17 na fyddai angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb arnynt gan nad ydynt yn golygu newidiadau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

## Argymhelliad

38 Bod yr Aelodau'n:

(a) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2016/17 ar yr un terfyn arian parod ag yn y flwyddyn ariannol bresennol sef £31,885,843, ac yn defnyddio £0.760 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i'w danategu;

b) cydnabod y perygl o ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn o ran cynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol;

c) cydnabod cynnwys yr SATC, a nodi'n arbennig yr egwyddor o osod y cyllidebau ar gyfer 2017/18 a 2018/19 ar un terfyn arian parod ag ar gyfer 2016/17.